Adam Price AS/MS
Gweinidog Cabinet dros Fenter, Cysylltedd ac Ynni
Cabinet Minister for Enterprise, Connectivity and Energy

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein Cyf: MA/AP/2425/26

Dr Jenifer Baxter
Cadeirydd
Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru

NationalInfrastructureCommissionforWales@gov.wales

4 Tachwedd 2026

Annwyl Jenifer,

Cylch Gwaith Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru hyd at Ragfyr 2027

Diolch am eich llythyr dyddiedig 14 Hydref 2026 yn dilyn ein cyfarfod ar 10 Medi. Rwy'n fodlon cadarnhau cylch gwaith Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru (y Comisiwn) hyd at 31 Rhagfyr 2027, yn amodol ar y trefniadau a nodir yn y llythyr hwn a'r Cylch Gorchwyl a atodir.

Dylai'r Comisiwn barhau i fod yn ymwybodol o'r fframwaith polisi a thystiolaeth ehangach sy'n berthnasol i benderfyniadau hirdymor ar seilwaith, gan gynnwys Cymru'r Dyfodol a'i Fframwaith Datblygu Cenedlaethol olynol, Tueddiadau'r Dyfodol, polisi sydd wrthi'n cael ei ddatblygu gan Lywodraeth Cymru ar ddeallusrwydd artiffisial a pholisïau perthnasol eraill ar yr economi ddigidol, ynni a'r grid, dŵr a'r amgylchedd. Dylai'r Comisiwn hefyd fod yn ymwybodol o ddatblygiadau'r farchnad yn ogystal â pholisi perthnasol y DU a fydd yn effeithio ar y sector hwn.

Dylai'r Comisiwn ddefnyddio'r dystiolaeth bresennol ac adeiladu arni lle bynnag y bo modd, nodi lle mae tystiolaeth yng Nghymru yn parhau'n anghyflawn, ac osgoi dyblygu gwaith sydd eisoes wedi'i gomisiynu neu sy'n mynd rhagddo.

Wrth fwrw ymlaen â'r cylch gwaith hwn, dylai'r Comisiwn roi sylw penodol i ymrwymiadau a chyfeiriad y Llywodraeth ar y canlynol:

- gweithio gyda llywodraeth leol, cyrff cyhoeddus, rheoleiddwyr, diwydiant, prifysgolion, cymunedau a'r trydydd sector fel partneriaid wrth lunio a chyflawni polisïau.
- gosod y Gymraeg wrth wraidd polisi cyhoeddus, gan gynnwys cynllunio, sgiliau, gwasanaethau cyhoeddus a datblygu economaidd;
- cryfhau trefniadau i gynnwys cymunedau, sicrhau gwerth cyhoeddus hirdymor a sicrhau bod manteision ac effeithiau datblygiadau yn cael eu hystyried yn deg;
- ymgorffori ystyriaethau ynglŷn â'r hinsawdd a natur, datgarboneiddio, cynaliadwyedd amgylcheddol a gwydnwch yn holl brosesau gwneud penderfyniadau'r llywodraeth;

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Adam.Price@llyw.cymru
Correspondence.Adam.Price@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn yr iaith honno ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

- sicrhau bod buddsoddiad mewn seilwaith yn cefnogi datblygu economaidd sy'n seiliedig ar le, gallu cyflawni cryfach a'r gwaith o ddatblygu cynigion hyfyw a buddsoddadwy;
- diwygio'r system gynllunio fel ei bod yn gwasanaethu pobl, cymunedau a busnesau yn well, a pharatoi Fframwaith Datblygu Cenedlaethol ar ei newydd wedd sy'n cynnig gweledigaeth strategol a goruchwyliaeth ledled Cymru;
- datblygu Strategaeth Ddigidol newydd i Gymru, gan gefnogi digideiddio ac arloesi, a thrin technoleg ddigidol fel sector twf allweddol;
- rhyddhau potensial economi Cymru a chreu swyddi da â chyflog da, gan gynnwys sicrhau gwerth economaidd, sgiliau, cyfleoedd cadwyn gyflenwi a buddsoddiad cyfrifol o seilwaith digidol a data yng Nghymru;

Mae seilwaith yn hanfodol i gyflawni'r uchelgeisiau hynny. Mae rhwydweithiau ynni, dŵr a digidol dibynadwy, cynllunio effeithiol, lleoedd gwydn a'r gallu i fabwysiadu technoleg newydd yn hanfodol ar gyfer buddsoddiad cynhyrchiol, cyflogaeth o ansawdd uchel, gwasanaethau cyhoeddus modern a chymunedau cryfach. Felly, disgwyliaf i waith y Comisiwn helpu Llywodraeth Cymru i gyflawni'r Rhaglen Lywodraethu a'i hamcanion llesiant, a hefyd barhau i ganolbwyntio ar dystiolaeth hirdymor a chyngor annibynnol.

Mae Rhaglen Lywodraethu 2026 i 2030 yn nodi uchelgais y Llywodraeth hon ar gyfer Cymru fodern, ffyniannus, uchelgeisiol a hyderus. Mae'n canolbwyntio ar wella gwasanaethau cyhoeddus a safonau byw, rhyddhau potensial economi Cymru, creu swyddi da â chyflog da, codi safonau addysgol, mynd i'r afael â thlodi plant a chyflawni'n effeithiol ym mhob rhan o'r llywodraeth. Mae hefyd yn pwysleisio partneriaeth, arloesedd a gweithio ar draws portffolios yn hytrach nag mewn seilos sefydliadol.

Y Rhaglen Lywodraethu a'r cyd-destun polisi ehangach

Dylai'r Comisiwn barhau i roi cyngor annibynnol, sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac sy'n edrych ymlaen ar y seilwaith sydd ei angen i gefnogi datblygiad a defnydd cyfrifol o ganolfannau data, cyfrifiannu deallusrwydd artiffisial a chysylltedd digidol ehangach yng Nghymru. Dylai ei gyngor ddangos sut y gall dewisiadau seilwaith gyfrannu at y nodau llesiant a gwerth cyhoeddus hirdymor.

Dylai'r Comisiwn geisio:

- canolbwyntio ar fylchau yn y dystiolaeth yng Nghymru ac ychwanegu gwerth at waith sydd eisoes yn mynd rhagddo yn Llywodraeth Cymru a sefydliadau partner, yn hytrach na'i ddyblygu;
- ystyried ynni, dŵr, tir, cynllunio, cysylltedd digidol, effeithiau amgylcheddol, gwydnwch, sgiliau, gwerth economaidd, gwasanaethau cyhoeddus, cydraddoldeb, y Gymraeg, cymunedau a gwerth cyhoeddus hirdymor fel materion cysylltiedig;
- cymhwyso egwyddor datblygu cynaliadwy a'r pum ffordd o weithio o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015;
- defnyddio ymgysylltu cymesur â diwydiant, cyfleustodau, rheoleiddwyr, llywodraeth leol, cyrff proffesiynol, Comisiynwyr statudol Cymru a chymunedau;
- bod yn dryloyw ynghylch tystiolaeth, rhagdybiaethau, ansicrwydd a chyfaddawdau.

Y berthynas â datblygu polisi Llywodraeth Cymru

Dylai'r Comisiwn a swyddogion weithio'n gydgynhyrchiol, gan rannu tystiolaeth a phrofi opsiynau sydd wrthi'n cael eu datblygu. Nid yw'r cydweithrediad hwn yn gwneud y Comisiwn yn gyfrifol am bolisi Llywodraeth Cymru, ac nid yw'n atal Llywodraeth Cymru rhag datblygu na chyhoeddi ei fframwaith ei hun cyn bod rhaglen ehangach y Comisiwn wedi ei

chwblhau. Dylai'r Comisiwn roi tystiolaeth a chyngor wrth iddynt fod ar gael a dylai gyhoeddi ei gyngor terfynol ar wahân.

Croesawaf gynnig y Comisiwn i gefnogi'r gwaith o ddatblygu fframwaith polisi i Gymru ar gyfer canolfannau data a chyfrifiannu deallusrwydd artiffisial ac i gynnal asesiad ehangach o seilwaith digidol. Dylai'r gwaith fod yn gydweithredol â ffocws ymarferol, gan gynnal annibyniaeth y Comisiwn ac atebolrwydd clir Gweinidogion Cymru am benderfyniadau polisi a chyflawni.

Dylai cyngor y Comisiwn gydnabod nad materion digidol na chynllunio yn unig sydd ynghlwm wrth ganolfannau data neu gyfrifiannu deallusrwydd artiffisial. Maent yn croestorri ynni, dŵr, tir, cysylltedd, sgiliau, datblygu economaidd, gwasanaethau cyhoeddus, terfynau amgylcheddol a buddiannau cymunedol. Felly, dylai'r Comisiwn gymhwyso dull systemau a nodi'n glir y dewisiadau, y dibyniaethau a'r cyfaddawdau dan sylw, gan gynnwys y cydbwysedd rhwng denu buddsoddiad, cryfhau gwydnwch a sofraniaeth genedlaethol, sicrhau manteision i Gymru a diogelu cymunedau ac adnoddau naturiol.

Cam 1: Hydref 2026 i Ionawr 2027

Dylai'r Comisiwn gefnogi'r gwaith o ddatblygu a phrofi'r sylfaen dystiolaeth a'r opsiynau polisi yn gyflym drwy'r canlynol:

- cyfrannu at bapur tystiolaeth trawslywodraethol, gan gynnwys map o'r llif o ganolfannau data hysbys ac asesiad o gyfyngiadau a chyfleoedd ynni, dŵr, digidol, tir a chynllunio;
- rhoi her annibynnol ar yr hyn y gallai rhagolygon galw'r DU a phensaernïaethau cyfrifiannu amgen ei olygu i Gymru;
- archwilio dulliau polisi rhyngwladol perthnasol, technolegau sy'n cael eu datblygu a pharodrwydd seilwaith Parthau Twf Deallusrwydd Artiffisial Gogledd a De Cymru;
- sefydlu grŵp cynghori proffesiynol i gynnal adolygiad gan gymheiriaid o'r dystiolaeth a phrofi opsiynau polisi;
- casglu dirnadaethau rhanddeiliaid a'r gymuned drwy drafodaethau cymesur â diwydiant, cyfleustodau, rheoleiddwyr, awdurdodau lleol a chymunedau ger safleoedd presennol neu arfaethedig;
- helpu i nodi uchelgais strategol a rennir ac egwyddorion gwerth cyhoeddus ar gyfer seilwaith canolfannau data a chyfrifiannu deallusrwydd artiffisial, gan gynnwys ystyriaethau o ran lleoliad, adnoddau cynllunio, budd cymunedol, llywodraethu a chyflawni;
- rhoi cymorth strategol cymesur i swyddogion ar faterion sy'n dod i'r amlwg, gan osgoi gwneud sylwadau ar rinweddau safleoedd unigol.

Dylai'r Comisiwn gytuno ar allbynnau Cam 1 manwl ac amserlen â swyddogion drwy'r trefniadau gweithio ar y cyd, gydag allbynnau o sylwedd wedi'u cwblhau erbyn diwedd mis Ionawr 2027.

Cam 2: Mis Ionawr i fis Rhagfyr 2027

Yn amodol ar gwmpas manwl y cytunwyd arno, fforddiadwyedd ac argaeledd adnoddau, dylai'r Comisiwn gynnal asesiad seilwaith digidol ehangach a helpu i roi prawf ar y ffordd y mae'r fframwaith sy'n cael ei ddatblygu yn gweithredu. Gall y rhaglen gynnwys:

- tystiolaeth ofodol i gefnogi polisi lleoliadol, pan fo'r gwaith cychwynnol yn nodi'r angen am asesiad gofodol cenedlaethol, canllawiau cynllunio neu adnodd polisi arall;

- gweledigaeth a rennir ac egwyddorion gwerth cyhoeddus ar gyfer seilwaith deallusrwydd artiffisial a chanolfannau data, wedi'u cydlunio â gweithwyr proffesiynol, cymunedau a chyrff cyhoeddus perthnasol;
- budd cymunedol ac ymgysylltu dyfnach mewn cymunedau lletyol yn y gogledd a'r de;
- cymorth o ran profi a gweithredu, gan gynnwys adolygiad annibynnol o fframwaith drafft cyn ymgynghori;
- seilwaith digidol ehangach, gan gynnwys ffeibr, symudol, lloeren, cyfrifiadura ymyl a chysylltedd perthnasol y sector cyhoeddus, ynghyd â defnydd cyfrifol o ddeallusrwydd artiffisial wrth gynllunio a darparu seilwaith;
- cyngor annibynnol terfynol i Weinidogion Cymru a digwyddiad cenedlaethol ar ddeallusrwydd artiffisial, cysylltedd a chanolfannau data ddiwedd 2027.

Dylai'r Comisiwn gyflwyno cwmpas Cam 2 manwl, cynllun cyflawni, gofyniad adnoddau ac allbynnau arfaethedig i gytuno arnynt ddechrau 2027. Nid yw cynnwys yn y cylch gwaith hwn yn gyfystyr â chymeradwyo gwariant ychwanegol.

Yn ogystal â'r gwaith hwn, dylai'r Comisiwn hefyd geisio monitro ei waith blaenorol a'i argymhellion sy'n cael eu hadolygu, gan ystyried tystiolaeth newydd, amgylchiadau sy'n newid a hynt y broses weithredu. Gallai hyn gynnwys gwneud sylwadau ar bolisi a mentrau Llywodraeth Cymru sydd wrthi'n cael eu datblygu. Lle y bo'n briodol, dylai gynghori Gweinidogion Cymru a oes angen cadarnhau, diweddaru neu ailystyried casgliadau neu argymhellion cynharach.

Adnoddau

Nodaf y bydd y Comisiwn yn parhau i weithio gyda swyddogion ar gyllideb ac adnoddau Swyddfa'r Rhaglen. Dylid rheoli Cam 1 o fewn adnoddau y cytunwyd arnynt a rheolaethau Llywodraeth Cymru. Bydd cyllid ar gyfer 2027/28 a chomisiynau Cam 2 perthnasol eraill yn cael eu hystyried ar wahân unwaith y bydd y gwaith wedi'i gwmpasu.

Hyd ac adolygiad

Daw'r cylch gwaith hwn i rym o ddyddiad y llythyr hwn a bydd yn parhau mewn grym tan 31 Rhagfyr 2027 oni chaiff ei ddiwygio neu ei ddisodli. Dylai swyddogion a'r Comisiwn adolygu cynnydd ar ddiwedd Cam 1 a chytuno ar unrhyw fireinio angenrheidiol i raglen 2027.

Edrychaf ymlaen at weithio gyda chi a'r Comisiynwyr ar y rhaglen bwysig hon ac at gael cyngor annibynnol y Comisiwn.

Yn gywir,



Adam Price AS
Gweinidog Cabinet dros Fenter, Cysylltedd ac Ynni
Cabinet Minister for Enterprise, Connectivity and Energy